## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL) - DYDD LLUN, 18 HYDREF 2021 DYDD LLUN, 18 HYDREF 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
M. Day
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Helen Jones (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Hayley Hawkins (Staff y Cyngor) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Steve Osborne (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G. Thomas. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU AR GYFER 2020/21 A 2021/22 (CH1 & CH2)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Safonau Masnachu a Thrwyddedu fod yr adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu Cyffredinol ar waith y Tîm Trwyddedu rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 ac 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021. Siaradodd y Rheolwr Tîm am yr adroddiad ac amlinellu'r pwyntiau allweddol a fanylir yn yr adroddiad yn gysylltiedig ag effaith Covid-19, staffio a dyletswyddau, arferion gwaith ynghyd â'r adroddiad gweithredol, masnachu stryd, casgliadau elusen, metel sgrap, ceisiadau rhyddid gwybodaeth, gweithgareddau archwilio a gorfodaeth ac adroddiad rheolaeth.<br><br>Nododd y Rheolwr Tîm na dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn a chyfeiriodd Aelodau at yr atodiadau.<br><br>Gofynnodd Aelod os oes unrhyw oedi ar wiriadau DBS.<br><br>Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod gwiriadau DBS yn awr ar raglen dreigl a byddant yn cael eu dilyn lan ym mis Rhagfyr.<br><br>Cododd Aelod bryderon yng nghyswllt gostwng staff a dywedodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu fod y Tîm ar gapasiti llawn ar hyn o bryd a rhoddodd sicrwydd i Aelodau na fu unrhyw ostyngiadau mewn staff. Lle cafodd staff eu hadleoli dros dro yn ystod y pandemig, ychwanegwyd y cymerwyd mesurau priodol i ôl-lenwi neu ymestyn oriau swyddogion eraill ár gyfer y | |

cyfnod dan sylw.

Codwyd mater o gonsyrn arall yng nghyswllt cau'r ddesg arian yn y Ganolfan Ddinesig a dywedwyd y gall ymgeiswyr dalu dros y ffôn yn defnyddio cerdyn a gellid paratoi anfonebau os dymunai ymgeisydd dalu gydag arian parod. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm fod y gwasanaeth yn edrych yn barhaus ar opsiynau i wella gwasanaethau a gellid ymchwilio opsiynau talu eraill fel sy'n addas.

Mewn ymateb i fater arall o gonsyrn a godwyd gan yr Aelod yng nghyswllt cyfweld ymgeiswyr, dywedodd y Rheolwr Tîm fod y Tîm bellach yn seiliedig yn Llys Einion a bod ystafell gyfweld ar gael os oes angen. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm y derbynnir yn eang erbyn hyn y gellid cynnal cyfweliadau ar Teams ac y bu cyfweliadau'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn y dull hwn yn llwyddiannus. Ychwanegodd ymhellach fod yr awdurdod lleol bellach mewn sefyllfa i gynnig cyfarfodydd hybrid, felly teimlai fod cydbwysedd ar gael.

Dymunai Aelod ddiolch i'r staff am gynnal y safon uchel o waith yn ystod y cyfnod hwn.

Croesawodd Aelod arall yr adroddiad a dywedodd y dylid canmol y Tîm yn ogystal â deiliaid trwydded sydd wedi cynnal eu gwasanaeth yn ystod y pandemig.

Dilynodd trafodaeth am y cynllun peilot ar dacsis trydan a dywedwyd y cafodd cerbydau eu derbyn ac y gosodwyd pob man gwefru trydan, fodd bynnag bu oedi wrth benodi cwmni rheoli. Nid yw'r awdurdod lleol mewn sefyllfa i roi trwyddedau nes bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru wedi penodi'r cwmni rheoli yn dilyn eu proses dendro. Ychwanegodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y bu diddordeb gan yrwyr tacsi ac y gallai'r prosiect fynd yn ei flaen cyn gynted ag y penodwyd y cwmni rheoli.

Ychwanegodd y Rheolwr Tîm y gobeithid y gellid trin y mater hwn cyn gynted ag sydd modd er mwyn symud y prosiect yn ei flaen, fodd bynnag mae allan o reolaeth yr Awdurdod Trwyddedu.

Yn nhermau ymestyn y cynllun, dywedwyd nad oes unrhyw amserlenni wedi eu cadarnhau, felly gallai fod yn bosibilrwydd.

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi’r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 5** | **<u>RHESTR CEISIADAU AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYD HACNI A HUR PREIFAT</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, fod o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu yr Ymgeisydd i Swyddogion ac Aelodau’r Pwyllgor a rhoddodd drosolwg o’r cais i gael ei ystyried.<br><br>Cododd Aelodau nifer o gwestiynau yng nghyswllt y cais ac ymatebodd yr Ymgeisydd a’r Swyddogion iddynt.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy’n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at unigolyn neilltuol a’r cais am gerbyd hacni newydd. | |